# Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir

# Polisi Niwsans Statudol 2024



Shared Regulatory Services

Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir

# Polisi Niwsans Statudol 2024

# 1. Cyflwyniad

1.1 Mae’r Gwasanaeth Rheoliadol a Rennir (GRhR) yn gweinyddu’r gwasanaeth rheoli llygredd ar ran Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, Cyngor Dinas Caerdydd a Chyngor Bro Morgannwg.

1.2 Prif nod gwasanaeth Llygredd y GRhR yw diogelu iechyd ac ansawdd bywyd y cyhoedd, yn benodol trwy atal a lleihau niwsans statudol. Mae hyn yn gofyn am reoli’n integredig unrhyw faterion niwsans statudol o fewn ei reolaeth, boed hynny mewn modd ataliol neu drwy fynd i'r afael ag unrhyw niwsans sy'n codi mewn modd ymatebol.

1.3 Mae Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 yn nodi'r materion sy'n gyfystyr â niwsans statudol ac yn nodi’r pwerau penodol i fynd i'r afael â niwsans. Mae'r Polisi hwn yn nodi dull gweithredu’r GRhR wrth ymchwilio i gwynion niwsans statudol a'r defnydd priodol o ddeddfwriaeth berthnasol. Ei nod yw nodi ein dull o atal niwsans statudol rhag digwydd; sut y byddwn yn delio â sefyllfaoedd sy'n digwydd; a sut y byddwn yn gweithio gyda phartneriaid mewnol ac allanol i fynd i'r afael â phroblemau niwsans. **Mae polisi ar wahân ar gael sy'n delio'n benodol â niwsans sŵn.**

1.4 Wrth fabwysiadu’r polisi hwn, mae’r GRhR yn bwriadu cymhwyso pwerau cyfreithiol yn gyson ac yn deg, beth bynnag fo’r amgylchiadau. Ni chaiff penderfyniadau eu dylanwadu gan ryw, anabledd, iaith, ethnigrwydd, crefydd, credoau gwleidyddol na chyfeiriadedd rhywiol y defnyddwyr gwasanaeth.

1.5 Mae’r GRhR eisiau sicrhau bod ein gwybodaeth yn hygyrch. Caiff y polisi hwn ei gyhoeddi yn Gymraeg ac yn Saesneg ar ein gwefan www.srs.wales/cy, ac ar ffurf copi caled. Hefyd, gallwn ddarparu’r ddogfen hon mewn fformatau eraill gan gynnwys tâp sain, print bras ac mewn ieithoedd cymunedol. Gallwn ddefnyddio gwasanaethau cyfieithu pan fo angen. Dylid cyfeirio ceisiadau am gopïau mewn fformatau eraill neu mewn ieithoedd eraill i’r:-

Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir,
Cyngor Bro Morgannwg,
Swyddfeydd Dinesig,
Heol Holltwn,
Y Barri,
CF63 4RU

E-bost: enquiries@srs.wales

# 2. Beth yw diben y polisi?

2.1 Pwrpas y ddogfen hon yw nodi polisi niwsans statudol y GRhR wrth ymchwilio i gwynion niwsans statudol a'r defnydd o ddeddfwriaeth berthnasol. Y nodau yw:-

- Gosod safonau y mae'r Gwasanaeth wedi ymrwymo i'w bodloni mewn perthynas ag ymchwilio i gwynion niwsans statudol.
- Gosod amseroedd ymateb targed ar gyfer gwahanol gategorïau o gwynion.
- Darparu fframwaith tryloyw fel bod aelodau'r cyhoedd a busnesau lleol yn gwybod pa lefel o wasanaeth y gallant ei ddisgwyl.
- Cydgysylltu â Heddlu De Cymru, Timau Diogelwch Cymunedol, Cymdeithasau Tai, Timau Tai Cyngor, Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) a phartneriaid eraill a sefydlu systemau cyfathrebu, rhyngweithio a chymorth addas i'r ddwy ochr.
- Sicrhau gorfodaeth gyson sy'n gymesur, yn dryloyw ac yn wrthrychol, yn unol â Pholisi Cydymffurfio a Gorfodi cyffredinol y GRhR.
- Manteisio i'r eithaf ar y defnydd o'r adnoddau sydd ar gael.

# 3. Beth yw niwsans statudol?

3.1 Bydd yr adran hon yn amlinellu'r mathau o niwsans y gallwn ymchwilio iddynt a'r rhai na allwn ddelio â nhw, ac yn rhoi gwybodaeth mewn perthynas â'r diffiniad o niwsans statudol.

3.2 Er mwyn i fater gael ei ddiffinio'n niwsans statudol, rhaid iddo **amharu'n afresymol ac yn sylweddol ar y ffordd y mae cartref neu safle arall yn cael ei ddefnyddio neu ei fwynhau neu fod yn debygol o anafu iechyd.**

3.3 Mae'r cwynion niwsans statudol **y gallwn** ymchwilio iddynt yn cynnwys:-

- Mwg o systemau gwresogi
- Llwch o weithrediadau llwytho neu weithgareddau masnachol
- Mwg o goelcerthi neu simneiau
- Crynoadau o wastraff (e.e. baw cŵn, eitemau bwyd, ac ati)
- Arogleuon sy'n codi o'r modd y cedwir anifeiliaid
- Safleoedd brwnt
- Llwch o safleoedd adeiladu
- Arogleuon o safleoedd diwydiannol, masnach neu fusnes
- Golau artiffisial
- Pryfed o safleoedd diwydiannol, masnach neu fusnes
- Niwsans sŵn (gweler y Polisi Sŵn ar wahân i gael gwybodaeth yn hyn o beth)

3.4 Mae’r cwynion niwsans statudol **na allwn** ymchwilio iddynt yn cynnwys:-

- Arogleuon coginio o’ch cymydog
- Arogleuon sy'n digwydd yn y rhannau cyffredin e.e. mewn cynteddau blociau o fflatiau
- Arogleuon sigaréts o’ch cymdogion, gan gynnwys ysmygu neu arogl canabis
- Achwynwyr gorsensitif – y rhai sy'n rhy sensitif, yn fwy na'r person cyffredin. Er enghraifft, gallai hyn fod oherwydd goddefgarwch isel neu gyflwr meddygol sy'n bodoli eisoes.
- Ffynonellau anhysbys o'r niwsans e.e. llwch mewn ardal heb ffynhonnell amlwg

**Nid yw’r mathau o gwynion a restrir uchod yn holl gynhwysfawr.**

## 3.5 Pa ffactorau sy'n cael eu hystyried?

3.5.1 Caiff niwsans statudol ei ddiffinio gan Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990, a chyn y gall y GRhR ymchwilio a chymryd unrhyw gamau gweithredu ffurfiol, rhaid i ni fod yn fodlon bod y niwsans yn ddigon sylweddol i fod yn niwsans statudol.

Er mwyn sicrhau y gallwn eich helpu, rhaid i'r niwsans fod yn **sylweddol ac yn afresymol.**

3.5.2 Caiff nifer o ffactorau eraill eu hystyried wrth benderfynu ar niwsans. Ni fydd unrhyw ffactor unigol yn cael ei ystyried ar ei ben ei hun ond bydd yn cael ei ystyried ar y cyd wrth wneud y penderfyniad.

- **Lleoliad:** Er enghraifft, os ydych yn byw mewn ardal wledig, yna efallai y byddwch yn disgwyl arogli tail yn cael ei wasgaru ar dir fferm.
- **Effaith**: sut mae'r niwsans yn effeithio arnoch yn eich cartref
- **Hyd ac amlder y niwsans**: pa mor hir mae’r niwsans yn amlwg, a pha mor aml mae'n digwydd? Er enghraifft, mae coelcerthi "untro" sy'n cael eu rheoli’n rhesymol yn annhebygol o fod yn niwsans.
- **Sensitifrwydd yr achwynydd:** rhaid ystyried niwsans statudol yng nghyd-destun person cyffredin, sydd â iechyd da a phatrwm arferol o weithgarwch bob dydd. Ni ellir defnyddio niwsans statudol i wneud i bobl wneud mwy nag y gellid disgwyl yn rhesymol iddynt ei wneud oherwydd gall rhywun arall fod yn fwy sensitif na'r person cyffredin, er enghraifft person sydd â chlefyd anadlol ac sydd felly’n fwy sensitif i fwg.
- **Budd y cyhoedd**: gallai rhywbeth achosi anghyfleustra, ond oherwydd ei fod yn hanfodol i fudd ehangach y cyhoedd mae'n bosibl nad yw'n niwsans – er enghraifft arferon ffermio penodol. Er, dylid dilyn arfer gorau i leihau niwsans.

- **Y dulliau ymarferol gorau:** dim ond yn berthnasol i rai mathau o niwsans statudol sy'n digwydd ar safleoedd busnes; os yw cwmni'n gwneud popeth o fewn ei allu i atal neu wrthweithio effaith niwsans, yna bydd ganddo amddiffyniad yn erbyn unrhyw gamau gweithredu niwsans statudol.

### 3.6. Cwynion dienw

Nid ydym yn ymchwilio i gwynion dienw. Mae manylion yr holl achwynwyr yn cael eu cadw'n gwbl gyfrinachol oni chytunir fel arall. Dim ond yn ystod achos cyfreithiol y byddai'r manylion hyn yn cael eu rhyddhau, ac fel arfer ceir cytundeb yr achwynydd i'r sefyllfa hon yn gymharol gynnar yn ystod yr ymchwiliad.

# 4. Mathau o niwsans

## 4.1 Mwg o goelcerthi

Os oes mwg o goelcerth, nid yw o reidrwydd yn niwsans - nid yw presenoldeb mwg bob amser yn gyfystyr â niwsans, rhaid i'r mwg fod yn afresymol yn ei hanfod, ac effeithio'n sylweddol ar y defnydd o'r eiddo.

Ar gyfer eiddo domestig, nid oes unrhyw gyfreithiau sy'n gwahardd cael coelcerth. Gall rhywun gynnau coelcerth ar unrhyw adeg mor aml ag y dymuna. Fodd bynnag, os yw'n achosi niwsans statudol, gall y GRhR wneud rhywbeth yn ei gylch. Er mwyn i goelcerth gael ei ystyried yn niwsans o'r fath, rhaid i'r mwg fod yn effeithio'n sylweddol arnoch yn eich cartref a/neu eich gardd. Mae'n debygol hefyd y bydd angen iddo ddigwydd yn rheolaidd, nid dim ond unwaith neu ychydig o weithiau drwy gydol y flwyddyn.

Mae deddfau sy'n ymwneud â llosgi gwastraff masnach ar safleoedd diwydiannol neu fasnachol. Os yw'r coelcerthi hyn yn creu mwg tywyll, yna cyflawnir trosedd, a gall y GRhR a CNC weithredu.

## 4.2 Arogleuon

4.2.1 Mae arogleuon yn cael eu cynhyrchu gan lawer o sylweddau ac yn cael eu canfod gan ein canfyddiad synhwyraidd. Gall arogleuon gael eu cario pellteroedd hir yn yr awyr ac felly gallant effeithio ar nifer fawr o bobl. Fodd bynnag, bydd y graddau y mae arogl drwg yn effeithio ar bobl yn dibynnu ar sensitifrwydd eu synnwyr arogli a'u goddefgarwch o'r arogl dan sylw. Mewn rhai amgylchiadau, gall arogleuon fod yn niwsans statudol. Mae hyn yn dibynnu ar amlder, hyd, dwyster a / neu ffynhonnell. Gallwn ymchwilio i faterion sy'n ymwneud ag arogleuon o safleoedd diwydiannol, masnachol neu fusnes. Ni allwn ddelio â chwynion ynghylch arogleuon o eiddo domestig.

Mae achlysuron hefyd pan na ellir gwneud dim pellach a dylech fod yn ymwybodol, os ydych yn byw yn agos at waith trin carthion, tir fferm lle mae slyri yn cael ei wasgaru, tomen sbwriel neu weithgareddau penodol eraill, gallai'r gweithgareddau hyn effeithio arnoch o bryd i'w gilydd. Dan yr amgylchiadau hyn, y cyfan y gallwn ei wneud yw ei gwneud yn ofynnol i'r gweithredwr wneud yr hyn a all yn rhesymol i leihau'r effeithiau hynny.

### 4.2.2 Arogleuon Amaethyddol

Mae'r rhan fwyaf o bobl yn derbyn arogleuon amaethyddol fel rhan o fod yng nghefn gwlad.
Ar gyfer rhai mae ffynhonnell gyffredin o gwynion arogleuon yn ymwneud â gwasgaru bio-solidau (slwtsh carthion), tail anifeiliaid (fel tail cyw iâr) a slyri (gwasgaru tail). Gall gwyntoedd cyffredinol gario'r arogleuon hyn gryn bellter ar draws caeau ac i ardaloedd preswyl.

Mae gwaith gwasgaru'r holl ddeunyddiau gwastraff hyn yn cael ei gydnabod fel arfer yn arfer amaethyddol safonol ac mewn ardaloedd gwledig lle mae tir fferm gweithiol, rhaid disgwyl arogleuon o'r fath o bryd i'w gilydd.

Nid yw bob amser yn bosibl rhagweld hyd neu ddwyster disgwyliedig yr arogleuon, gan y gall hyn fod yn ddibynnol ar amodau'r tywydd ond fel arfer dim ond am gyfnod byr o amser y mae arogleuon yn para. Caiff ffermwyr eu hannog i ddefnyddio arfer gorau wrth wasgaru ar eu caeau.

Mae'n annhebygol y bydd camau gweithredu'n cael eu cymryd yn erbyn arogleuon amaethyddol mewn lleoliad gwledig oni bai bod yr arogl yn afresymol o uchel ac yn cael ei nodi'n arogl sydd o ganlyniad i arfer amaethyddol gwael.

Er mwyn ymchwilio i gwynion, mae angen rhoi manylion am:-

- Hyd yr arogl.
- Y fferm sy'n gwasgaru neu gymaint o fanylion â phosibl am y ffynhonnell. Os gellir nodi ffynhonnell yr arogl gellir cysylltu â'r ffermwr a'i gynghori ar arfer gorau a'i annog i'w ddefnyddio.

## 4.3 Niwsans gan anifeiliaid

Yn gyffredinol, caniateir i bobl gadw anifeiliaid anwes cyn belled nad ydynt yn achosi niwsans statudol neu berygl iechyd i bobl o'u cwmpas. Mae dyletswydd ar berchnogion anifeiliaid anwes i sicrhau bod eu hanifeiliaid anwes yn cael eu cadw yn y fath fodd fel nad ydynt yn amharu ar fwynhad eu cymdogion o'u cartrefi. Gall anifeiliaid nad ydynt yn cael eu cadw mewn amodau addas achosi problemau mewn perthynas ag arogl a gwastraff. Rydym yn ceisio datrys problemau drwy gynnig cymorth a chyngor ond mewn amgylchiadau lle rydym yn penderfynu bod niwsans statudol, gallwn ddefnyddio'r pwerau sydd ar gael yn Neddf Diogelu'r Amgylchedd 1990.

## 4.4 Crynoadau o sbwriel

Mae gan y GRhR bwerau i ddelio â chrynoadau o sbwriel a allai fod yn niwsans iechyd y cyhoedd. Os yw crynhoad yn debygol o lochesu neu ddenu cnofilod neu gyflwyno risg iechyd i bobl, gellir cymryd camau gorfodi yn erbyn y bobl sy'n gyfrifol.

## 4.5 Pryfed

Gall pryfed ddod yn niwsans statudol pan ellir eu holrhain i weithgaredd masnachol a bod cynnydd amlwg yn eu niferoedd, sy'n ymyrryd â chysur a mwynhad cartref rhywun arall.

Diwygiodd Deddf Cymdogaethau Glân a'r Amgylchedd 2005 Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 i gynnwys pryfed yn y drefn niwsans statudol. Mae'r ddeddfwriaeth dim ond yn ymwneud â phryfed sy'n deillio o safleoedd masnach neu fusnes perthnasol. Nid yw'n berthnasol pan mai eiddo domestig yw ffynhonnell y broblem.

Gall canfod ffynhonnell niwsans weithiau fod yn broses anodd a hirfaith, gan fod pryfed hedfan yn gallu teithio pellteroedd sylweddol.

Mae ffynonellau tebygol o niwsans pryfed yn cynnwys:

- ffermydd/tai dofednod
- gwaith trin carthion
- ardaloedd storio tail/silwair
- tai anifeiliaid
- ffosydd a draeniau llonydd
- safleoedd tirlenwi, tomenni sbwriel a gorsafoedd trosglwyddo gwastraff.

## 4.6 Niwsans Golau

Gall golau sy'n tywynnu i mewn i'ch eiddo fod yn niwsans ac fe'i disgrifir orau fel golau artiffisial sy'n goleuo neu'n ymyrryd ar ardaloedd na fwriedir iddynt gael eu goleuo fel goleuadau diogelwch. Nid oes llawer o arweiniad ffurfiol ynghylch yr hyn sy'n niwsans golau y gellir gweithredu yn ei erbyn yn gyfreithiol. Nid oes unrhyw lefel sefydlog sy'n niwsans statudol; mae amgylchiadau unigol yn wahanol, ac mae'n rhaid barnu pob achos yn ôl ei rinweddau ei hun, gan gynnwys hyd ac amlder y niwsans golau.

Nid oes gan y GRhR bwerau cyfreithiol dros lygredd golau cyffredinol, er enghraifft awyr y nos, dim ond golau sy'n achosi niwsans posibl i unigolyn. Nid yw niwsans golau yn cynnwys golau o safleoedd a ddefnyddir at ddibenion trafnidiaeth na lle mae angen lefelau uchel o olau am resymau diogelwch fel goleuadau stryd.

# 5. Safonau Gwasanaeth

5.1 Dan Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990, mae dyletswydd ar y GRhR i gymryd camau rhesymol i ymchwilio i gwynion am niwsans statudol. Mater i bob awdurdod yw penderfynu pa gamau y mae'n eu hystyried yn 'rhesymol'.

Mae'r adran hon yn diffinio'r safonau gwasanaeth y cytunwyd arnynt ar gyfer ymchwilio i bob cais gwasanaeth sy'n gysylltiedig â niwsans statudol. Nid ydynt wedi'u hysgrifennu fel cynllun anhyblyg i'r Gwasanaeth lynu ato, ond fel canllaw i lefel yr ymchwiliad y gellir ei ddisgwyl.

- Er mwyn cyflawni'r dyletswyddau a osodir ar y Gwasanaeth gan ddeddfwriaeth gyfredol mewn perthynas â niwsans statudol, gwnaed ymrwymiad i fodloni'r safonau canlynol.

- Sicrhau bod trefniadau effeithiol ar waith i dderbyn, cofnodi a sgrinio ceisiadau gwasanaeth am gamau gweithredu yn ystod oriau swyddfa arferol.

- Anelu at ymateb i'r categorïau canlynol o gwynion niwsans o fewn yr amseroedd a bennwyd:

  **Domestig** o fewn 5 diwrnod gwaith.
  **Masnachol / Diwydiannol** o fewn 3 diwrnod gwaith

- Sicrhau, lle bo angen, bod trefniadau effeithiol yn cael eu gwneud i fonitro y tu allan i oriau swyddfa arferol.

- Pan gyfeirir cwynion am niwsans statudol o ganlyniad i'r broses sgrinio, mae swyddog cymwys addas ar gael i gymryd camau gweithredu priodol.

- Lle bo angen cyflwyno hysbysiad statudol, byddwn yn anelu at gyflwyno'r hysbysiad o fewn 10 diwrnod gwaith ar ôl i'r niwsans gael ei brofi a/neu ei nodi'n niwsans statudol.

- Sicrhau bod trefniadau effeithiol ar waith i barhau â'r ymchwiliad a/neu fonitro, lle bo hynny'n briodol, gwynion niwsans y tu allan i oriau gwaith arferol.

# 6. Penodi ac awdurdodi swyddogion

6.1 **Sgiliau, cymwyseddau a phrofiad swyddogion rheoleiddio:** Mae rheoli a darparu gwasanaethau rheoli niwsans yn effeithiol yn gofyn am nifer ddigonol o staff sydd â chymwysterau addas mewn rheoli a gorfodi niwsans. Bydd y Gwasanaeth yn sicrhau

bod gan bob swyddog awdurdodedig y lefel briodol o sgiliau, cymwyseddau a phrofiad sy'n gymesur â'i rôl a'i gyfrifoldebau a'r cymorth sydd ei angen i ymgymryd â'i swydd yn effeithiol ac yn effeithlon. Bydd swyddogion yn ymgymryd â Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP), cymwysterau, hyfforddiant a datblygiad.

# 7. Ein dull o atal ac ymchwilio i faterion niwsans statudol

7.1 Mae'r adran hon yn amlinellu sut rydym yn ymgymryd â mesurau rhagweithiol ac adweithiol i ymateb i faterion niwsans statudol.

## 7.2 Atal

Ein nod yw atal niwsans statudol ar adeg ceisiadau cynllunio neu geisiadau trwydded safle. Mae hwn yn faes pwysig o waith rheoli niwsans gan y gall y penderfyniadau a wneir gan Bwyllgorau Cynllunio a Thrwyddedu'r Cyngor atal yr angen am gamau gweithredu niwsans statudol.

Lle bo hynny'n bosibl, byddwn yn ceisio datrys pryderon gydag ymgeiswyr. Os nad yw hyn yn bosibl, byddwn yn ceisio lliniaru / lleihau effaith niwsans drwy argymell gosod amodau ar unrhyw ganiatâd cynllunio neu wneud sylwadau mewn perthynas â thrwydded safle. Efallai y bydd yn ofynnol i swyddogion gyflwyno tystiolaeth mewn gwrandawiadau neu adolygiadau perthnasol.

## 7.3 Ymchwilio i gwynion

Mae gan y swyddog ymchwilio ddisgresiwn o ran dull yr ymchwiliad, oherwydd gall mesurau rhy gaeth atal swyddogion rhag defnyddio eu barn broffesiynol i'w heffaith orau wrth ddatrys achosion heriol mewn amgylchiadau sy'n newid yn gyflym. Fodd bynnag, yn gyffredinol, bydd un neu fwy o'r camau gweithredu canlynol yn cael eu cymryd.

- Byddwn yn ceisio cysylltu â'r achwynydd o fewn yr amser ymateb priodol, i gael manylion y gŵyn.

- Pan fydd angen cynnal ymweliadau safle i brofi'r niwsans y gwneir y gŵyn amdano, byddant yn cael eu gwneud gan swyddogion ymchwilio ar yr adegau y mae'r niwsans honedig yn debygol o ddigwydd. Bydd yr ymweliadau'n para hyd addas ar adegau o'r dydd / nos pan fyddwn fwyaf tebygol o brofi'r niwsans. Os, ar ôl cynnal 3 ymweliad, nad yw'r swyddog ymchwilio wedi bod yn dyst i amodau sy'n gyfystyr â niwsans statudol, bydd yn defnyddio ei farn broffesiynol i benderfynu a oes angen ymweliadau pellach.

- Ar gyfer ceisiadau gwasanaeth sy'n gysylltiedig â niwsans mwg neu arogl, bydd y swyddog achos yn penderfynu ar y dull monitro mwyaf priodol, a gall hyn fod yn

gymysgedd o ymweliadau ad hoc ac arolygon wedi'u cynllunio. Dylai arolygon monitro niwsans wedi'u cynllunio gael eu cynnal am gyfanswm o 5 awr ar y mwyaf. Bydd yr ymweliadau'n cael eu gwneud ar adegau priodol o'r dydd pan fydd y niwsans honedig yn debygol o ddigwydd. Os gwneir ceisiadau am arolygon monitro pellach, bydd y swyddog ymchwilio yn defnyddio ei farn broffesiynol ynghylch a yw hyn yn briodol.

## 7.4 Rolau'r achwynydd a'r swyddog achos

Gall ymchwiliad i gŵyn niwsans, yn ôl ei natur, fod yn gymhleth ac yn aml bydd yn cymryd amser i ymchwilio iddi, yn enwedig pan fo'r niwsans yn digwydd yn ysbeidiol. Mae casglu tystiolaeth a bod yn dyst i'r niwsans y gwneir y gŵyn amdano yn rhan annatod o'r ymchwiliad, mae gan yr achwynydd a'r swyddog achos rolau penodol:

- **Yr achwynydd**

  Bydd disgwyl i achwynwyr roi eu henw llawn, eu cyfeiriad a'u manylion cyswllt. Ni allwn ymchwilio i gwynion dienw. Caiff yr holl wybodaeth ei chadw'n unol â'r rheoliadau diogelu data cyfredol. Oherwydd natur gyfreithiol ymchwiliadau niwsans, nid yw'n bosibl ymchwilio heb wybod pwy sy'n cael ei effeithio.

  Bydd disgwyl iddynt hefyd gyflwyno manylion y gŵyn a chyfeiriad yr adeilad lle honnir bod y niwsans yn bodoli. Rhaid rhoi disgrifiad o'r niwsans, pryd ac am ba hyd y mae'n digwydd, a'r ffordd y mae'n effeithio arnynt a hefyd unrhyw beth y maent wedi'i wneud i geisio datrys y broblem.

  Cynghorir trigolion i geisio trafod y mater gyda'u cymydog a cheisio datrys y mater yn anffurfiol. Fodd bynnag, os nad yw hyn yn llwyddiannus a bod yr achwynydd yn gofyn am gymorth gan y GRhR, gofynnwn i bob achwynydd lenwi taflenni dyddiadur niwsans i gofnodi pob digwyddiad sy'n achosi niwsans a sut mae'n effeithio arno yn ei gartref. Bydd peidio â rhoi'r wybodaeth hon yn effeithio ar gynnydd ymchwiliad ac yn arwain at gau'r ffeil achos.

  Mae'n debygol y bydd ymchwiliad yn golygu ymweld ag eiddo'r achwynwyr er mwyn i swyddogion allu bod yn dyst i'r niwsans y gwneir y gŵyn amdano. Gall achwynwyr sy'n gwrthod y mesurau hyn atal eu cwyn rhag cael ei symud ymlaen ymhellach a gallai'r achos gael ei gau. Mae angen asesu niwsans o ystafell y gellir byw ynddi fel ystafell fyw neu ystafell wely, a lle bo'n briodol mewn gardd (ni ellir ystyried hyn yn rhesymol yn ystod y gaeaf, gyda'r nos ac ati, pan na fyddai'r ardd fel arfer yn cael ei defnyddio). Ni ellir asesu niwsans o ystafell na ellir byw ynddi fel ceginau (oni bai bod cegin ag ardal fwyta / byw gyfun) neu ystafelloedd ymolchi.

- **Y swyddog achos**

  Ar ôl derbyn taflenni cofnodion wedi'u cwblhau, bydd y swyddog achos yn penderfynu a oes digon o dystiolaeth / gwybodaeth ysgrifenedig ddilys i barhau â'r ymchwiliad. Fel rhan o'n hymchwiliadau, gall y swyddog achos ysgrifennu at a / neu ymweld â'r cymydog yr honnir ei fod yn achosi'r niwsans. Os na all y swyddog achos ddatrys y mater yn anffurfiol, bydd swyddog yn monitro o fewn eiddo'r achwynydd.

  Pan fydd y gwaith monitro niwsans wedi dod i ben, bydd y swyddog achos yn penderfynu a ystyrir bod y niwsans yn 'niwsans statudol' a beth fydd y cam gweithredu nesaf, a allai gynnwys, rhoi Hysbysiad ffurfiol, neu unrhyw gamau gweithredu pellach, o ganlyniad i dorri hysbysiad, fel rhybudd syml neu erlyniad am beidio â chydymffurfio. Bydd y swyddog achos yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r achwynydd drwy gydol yr ymchwiliad. Er y dilynir y dull gweithredu hwn yn y mwyafrif o achosion, mae'r GRhR yn cadw'r hawl i amrywio’r camau gweithredu lle bo hynny'n briodol. Er enghraifft, os yw ffynhonnell niwsans yn gyson yn hytrach nag ysbeidiol efallai y bydd yn bosibl gwneud asesiad o niwsans gydag un ymweliad yn unig.

## 7.5 Gwasanaeth y tu allan i oriau

7.5.1 Gall hwn fod ar gael i achwynwyr dan rai amgylchiadau.

- Cwynion niwsans domestig, diwydiannol, masnachol neu adeiladu lle cyflwynwyd hysbysiad atal a honnir na chydymffurfir â gofynion yr hysbysiad ac mae'r swyddog achos yn fodlon bod y gŵyn yn haeddu cael ei rhoi ar y rhestr y tu allan i oriau.
- Cwynion niwsans domestig, diwydiannol neu fasnachol lle nad yw ymdrechion i nodi niwsans statudol trwy ddefnyddio ymweliadau safle wedi'u cynllunio wedi bod yn llwyddiannus ac mae'r swyddog achos yn fodlon bod y gŵyn yn haeddu cael ei rhoi ar y rhestr y tu allan i oriau.
- ***Nid oes gwasanaeth ymatebol y tu allan i oriau ym Mro Morgannwg***

7.5.2 Mewn perthynas ag ymchwilio i gwynion niwsans parhaus, bydd yr achwynydd yn gallu defnyddio’r gwasanaeth am gyfnod o 4 wythnos. Os na phrofir niwsans statudol o fewn y cyfnod o 4 wythnos, yna rhoddir gwybod i’r achwynydd na fydd yn gallu defnyddio’r gwasanaeth mwyach oni bai bod y swyddog achos, ar ôl cael trafodaeth gyda rheolwr, yn penderfynu bod cyfnod pellach yn briodol.

7.5.3 Os bydd swyddog ar ddyletswydd yn mynd i’r safle ar 3 achlysur yn dilyn hysbysiad gan yr achwynydd bod niwsans yn digwydd, ac na phrofir niwsans ar unrhyw un o'r achlysuron hyn, yna bydd yr achwynydd yn cael gwybod na fydd yn gallu defnyddio’r gwasanaeth mwyach, oni bai bod y swyddog achos, ar ôl cael trafodaeth gyda rheolwr, yn penderfynu bod ymweliadau pellach yn briodol.

7.5.4 Bydd y swyddog ar ddyletswydd yn ceisio cysylltu â'r achwynydd o fewn 1 awr o gael gwybod am y gŵyn gan y ganolfan gyswllt. Os yw'r swyddog o'r farn bod angen ymweld â'r safle, bydd yr ymweliad yn cael ei wneud cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol gwneud hynny. Gall amseroedd ymateb fod hyd at 2 awr. Efallai na fydd yr amseroedd ymateb ar gyfer cysylltu â'r achwynydd a chynnal ymweliad bob amser yn cael eu bodloni yn ystod cyfnodau prysur.

7.5.5 Os yw'r swyddog ar ddyletswydd yn credu bod risg i'w ddiogelwch personol, bydd gan y swyddog hawl i wrthod mynychu'r sefyllfa.

7.5.6 Ni ddelir â chwynion niwsans neu achwynwyr tro cyntaf nad ydynt wedi cael eu rhoi ar y rhestr gwasanaeth brys y tu allan i oriau dan y gwasanaeth y tu allan i oriau hwn. Bydd unrhyw berson sy'n cysylltu â'r rhif gwasanaeth brys dan yr amgylchiadau hyn naill ai'n cael gwybod y dylai gysylltu â'r Gwasanaeth y diwrnod gwaith canlynol neu bydd manylion y gŵyn yn cael eu cymryd ar y pryd a'u hanfon ymlaen i'r Gwasanaeth.

## 7.6 Camau Gorfodi

7.6.1 Bydd camau gorfodi yn cael eu cymryd yn unol â Pholisi Cydymffurfio a Gorfodi y GRhR.

7.6.2 Byddwn bob amser yn ymdrechu i fodloni'r safonau uchaf wrth gymryd camau gorfodi. Bydd y safonau gwasanaeth canlynol yn berthnasol:

- Bydd swyddogion yn dweud yn glir pwy ydyn nhw ac yn cario'r cardiau adnabod priodol ac unrhyw awdurdodiadau angenrheidiol.
- Bydd swyddogion yn broffesiynol, yn gwrtais ac yn gymwynasgar wrth ddelio â materion gorfodi a byddant yn gweithio gydag unigolion, grwpiau a busnesau i hyrwyddo cydymffurfiaeth.
- Bydd swyddogion yn rhoi cymorth lle bo hynny'n briodol, a rhoddir cyngor i gynorthwyo i gydymffurfio cyn dechrau camau gweithredu ffurfiol, ac eithrio yn yr amgylchiadau hynny lle mae torri deddfwriaeth yn ddigon difrifol i gyfiawnhau camau gweithredu ffurfiol.
- Tegwch mewn achosion priodol – rhoddir cyfle digonol i unioni'r diffyg cydymffurfiaeth cyn dechrau achos ffurfiol.
- Bydd materion sy'n ymwneud â gorfodi yn cael eu trin yn brydlon.

# 8. Datrys ceisiadau gwasanaeth

8.1 Ystyrir bod cais gwasanaeth wedi'i ddatrys pan fo'r gweithdrefnau a fabwysiadwyd yn y polisi hwn wedi'u dilyn hyd at gwblhau. Pan fydd y swyddog wedi cynnal ei ymchwiliad o fewn ffiniau'r polisi hwn, os na chafwyd tystiolaeth ddigonol i warantu camau gweithredu pellach, bydd y gŵyn yn cael ei chau.

## 8.2 Cau ceisiadau gwasanaeth

8.2.1 Os, yn dilyn ymchwiliad i gais gwasanaeth, nad oes niwsans wedi'i gadarnhau bydd yr achos yn cael ei gau. Rydym yn cydnabod bod cau achos yn beth mawr i'r achwynydd a byddwn yn ei drin mewn modd cyson a sensitif. Ym mhob achos, byddwn yn cyfleu'r penderfyniad i'r achwynydd p'un ai ar lafar neu'n ysgrifenedig ein bod yn bwriadu cau'r ymchwiliad.

8.2.2 Ni fyddwn yn cysylltu â'r achwynydd yn y sefyllfaoedd canlynol:

- Mae'r gŵyn yn cael ei thynnu'n ôl.
- Ni chaiff taflenni dyddiadur eu cwblhau a'u dychwelyd o fewn yr amserlenni yn ôl y gofyn.
- Mae camau gweithredu anffurfiol wedi'u cymryd ac mae'r niwsans wedi lleihau am 4 wythnos.

8.2.3 Gall cwyn niwsans gael ei chau a'i datrys pan fydd y swyddog ymchwilio wedi cwblhau ymchwiliad, ac mae wedi arwain at un o'r canlynol:

- Cau'r gŵyn yn awtomatig heb hysbysiad os nad oes cyswllt o fewn 28 diwrnod.
- Mae'r gŵyn niwsans wedi cael ei datrys (mae'r niwsans wedi cael ei atal neu ei leihau) drwy gamau gweithredu anffurfiol e.e. e-bost, galwad ffôn neu lythyr rhybudd.
- Cyflwynwyd hysbysiad atal a chydymffurfiwyd ag ef neu mae gwaith wedi'i wneud yn ddiofyn.
- Lle mae camau gorfodi ffurfiol eraill wedi'u cymryd a bod y niwsans neu ei ddychweliad wedi cael ei atal neu ei leihau.
- Nid yw'r niwsans y cwynir amdano o fewn awdurdodaeth y GRhR.
- Ni nodwyd unrhyw niwsans statudol na niwsans arall y gellir gweithredu'n ffurfiol yn ei erbyn gan yr ymchwiliad a gynhaliwyd ac nid oes penderfyniad anffurfiol yn debygol.
- Mae'r mater wedi cael ei gyfeirio at asiantaeth allanol neu adran arall.
- Nid yw'r achwynydd yn cydweithredu â cheisiadau rhesymol ac angenrheidiol i gynorthwyo i ymchwilio i'r gŵyn fel cwblhau dyddiadur niwsans neu mae ei ymddygiad yn afresymol.

## 8.3 Cymryd eich camau gweithredu eich hun

Os na chafwyd tystiolaeth ddigonol, ni fydd y GRhR yn ymchwilio ymhellach i'r mater. Yna bydd gennych y ddau opsiwn i'w hystyried. Mae mwy o wybodaeth am y ddau opsiwn i'w gweld ar ein gwefan.

Niwsans Cyfraith Gyffredin a Niwsans Statudol (srs.wales/cy)

1. Adran 82 o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990Mae adran 82 o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 yn gwneud darpariaeth i unigolion preifat gymryd eu camau gweithredu eu hunain yn y Llys Ynadon.
2. Achos Sifil - Dewis arall i Adran 82 yw dwyn achos sifil am niwsans mewn cyfraith gyffredin trwy geisio naill ai gwaharddeb i atal y diffynnydd rhag parhau â'r niwsans neu iawndal am golled.

Bydd achwynwyr yn cael gwybodaeth mewn perthynas â'r darpariaethau hyn os yw'n briodol.

### 8.4 Cau achos oherwydd ymddygiad derbyniol gan achwynwyr

Mae ymddygiad annerbyniol yn golygu gweithredu mewn ffordd sy'n afresymol, waeth beth yw lefel straen, rhwystredigaeth neu ddicter rhywun. Gall gynnwys gweithredoedd, geiriau neu ystumiau corfforol a allai achosi trallod neu anghysur i berson arall.

Ymddygiad ymosodol neu sarhaus yw ymddygiad neu iaith (ysgrifenedig neu lafar) a allai beri i'n staff deimlo'n ofnus, dan fygythiad neu fel eu bod yn cael eu cam-drin. Mae hyn yn cynnwys negeseuon e-bost, galwadau ffôn, cyfarfodydd, a sylwadau bygythiol ar y cyfryngau cymdeithasol neu rywle arall.

Ni fydd ymddygiad annerbyniol tuag at staff yn cael ei oddef ac mae'n debygol o arwain at dynnu'r gwasanaeth yn ôl.

### 8.5 Ymchwiliadau pellach

Ni fydd y GRhR yn ymchwilio i'r un gŵyn oni bai bod amgylchiadau wedi newid yn sylweddol. Ni fydd y ffeil achos yn cael ei hailagor, ac ni fydd ymchwiliad arall yn cael ei gynnal i'r gŵyn nes bod naill ai 6 mis wedi mynd heibio (o'r adeg y mae'r achos wedi cau) neu bu newid sylweddol yn yr amgylchiadau, naill ai o ran amlder, dwyster neu hyd y mater niwsans

# 9. Gweithio mewn partneriaeth

9.1 Mae'r adran hon yn amlinellu sut rydym yn gweithio gydag adrannau ac asiantaethau eraill. Mae swyddogion o'r GRhR yn gweithio mewn partneriaeth agos â thimau eraill o fewn y Cyngor, er enghraifft, Gwasanaethau Tai, Gwasanaethau Cynllunio, Trwyddedu a'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol, yn ogystal ag asiantaethau allanol, i ymchwilio i a rheoli'n rhagweithiol niwsans afresymol. Rydym yn anelu at weithio mewn partneriaeth ag adrannau eraill a lle bo'n briodol, asiantaethau eraill, i sicrhau ymateb effeithiol i bob cwyn ac ymgynghoriad. Bydd hyn yn galluogi mesurau adfer gorfodi'r gyfraith eraill i gael eu defnyddio gan adrannau ac asiantaethau eraill lle bo

hynny ar gael ac yn briodol e.e. deddfwriaeth gorfodi cynllunio, trwyddedu neu ymddygiad gwrthgymdeithasol.

Rydym yn gwneud atgyfeiriadau i’r gwasanaethau cymorth priodol, gyda chaniatâd yr achwynydd, a all gynnwys gwasanaeth cyfryngu.

Rydym yn cydgysylltu â Heddlu De Cymru ac yn sefydlu systemau cyfathrebu, rhyngweithio a chymorth addas i'r ddwy ochr o ran niwsans sy'n effeithio ar gymunedau lleol.

Mae'r gwasanaeth yn cydgysylltu â'r asiantaethau allanol canlynol. Fel partner y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol, rhennir gwybodaeth yn unol â'r protocolau rhannu data perthnasol.

## 9.2 Gweithio gyda Heddlu De Cymru

Mae cydgysylltu â'r heddlu yn cael ei wneud yn bennaf dan yr amgylchiadau canlynol:

- Gofyn am gymorth i weithredu gwarant ar gyfer mynediad gorfodol i safle
- Ceisio cyngor a gofyn am gymorth gydag ymddygiad gwrthgymdeithasol, anhrefn cyhoeddus, a materion diogelwch
- Rhannu gwybodaeth mewn perthynas ag achosion o niwsans y mae'r heddlu wedi delio â nhw.
- Cydgysylltu’n agos mewn perthynas â phroblemau niwsans o safleoedd trwyddedig
- Cymryd rhan yng nghyfarfodydd y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol ac Awdurdodau Cyfrifol.
- Lle mae pryderon am iechyd a diogelwch swyddogion.

## 9.3 Gweithio gyda landlordiaid cymdeithasol cofrestredig

Er bod deddfwriaeth ar gael i leihau niwsans statudol, gall Cymdeithasau Tai hefyd benderfynu a yw gorfodi'r cytundeb tenantiaeth yn briodol. Felly, gwnaed cysylltiadau agos i sicrhau datrysiad effeithiol i broblemau o'r fath. Mae cydgysylltu felly’n cael ei wneud yn bennaf dan yr amgylchiadau canlynol:

- Rhoi gwybod i'r gymdeithas dai berthnasol am unrhyw gwynion a dderbynnir mewn perthynas â'i thenantiaid.
- Rhoi gwybod i'r gymdeithas dai berthnasol am unrhyw gamau gweithredu cyfreithiol sy'n cael eu cychwyn yn erbyn ei thenantiaid.
- Anfon ymlaen gopïau o unrhyw Hysbysiadau Atal a gyflwynir i'w thenantiaid.
- Hwyluso dull ar y cyd o ymdrin â phroblemau niwsans a achosir gan denantiaid pryd bynnag y bo modd.
- Cyfnewid gwybodaeth am ymddygiad gwrthgymdeithasol unrhyw denantiaid yng Nghyfarfodydd y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol.

## 9.4 Gweithio gyda Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC)

Cyflawnir rheoleiddio niwsans ar gyfer gweithgareddau diwydiannol penodol a ganiateir dan Reoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2016 (fel y'i diwygiwyd) drwy amodau a roddir ar y drwydded. Cynhelir cydgysylltu effeithiol yn ystod y broses ymgynghori i sicrhau bod amodau perthnasol, digonol a phriodol yn cael eu gosod ar y drwydded ar gyfer rheoli niwsans. Gall y GRhR gyflwyno hysbysiadau atal niwsans statudol o hyd ar osodiadau a ganiateir.

# 10. Adolygu a monitro

10.1 Mae'r Polisi hwn yn rhoi sylw i ddeddfwriaeth gyfredol, canllawiau a gyhoeddir yn ganolog ac arferion gwaith gorau ar adeg paratoi. Caiff y Polisi hwn ei adolygu bob pum mlynedd neu'n unol â newidiadau mewn deddfwriaeth berthnasol, newidiadau mewn canllawiau a gyhoeddir yn ganolog neu pan fydd arferion gwaith yn nodi meysydd gwaith ar gyfer gwella gweithdrefnol.

10.2 Cynhyrchir adroddiadau allbwn chwarterol sy'n manylu ar nifer y cwynion y delir â nhw a pherfformiad y Gwasanaethau yn unol â dangosyddion perfformiad penodol sy'n rhan o'n Cynllun Busnes. Mae arolygon boddhad cwsmeriaid yn cael eu cynnal o bryd i'w gilydd pan fo angen. Mae unrhyw sylwadau a dderbynnir yn cael eu hadolygu a gweithredir arnynt, os yw'n berthnasol, i barhau i wella'r gwasanaeth.

# 11. Beth os nad ydych yn fodlon ar ein gwasanaeth?

11.1 Ein nod yw darparu gwasanaeth gorfodi effeithlon a theg sy'n ymgorffori diwylliant o atebolrwydd a thryloywder a byddwn yn ymdrechu i wella ein gwasanaeth cwynion niwsans yn barhaus trwy fonitro ac adolygu. Fodd bynnag, os nad yw person neu fusnes yn fodlon ar weithredoedd y GRhR, mae gweithdrefn gwyno ffurfiol ar gyfer cofrestru cwynion.

Gellir dod o hyd i fanylion y weithdrefn gwyno:

[Rydym yn gwrando ac yn dysgu (valeofglamorgan.gov.uk/cy)](valeofglamorgan.gov.uk/cy)

**Noder:** Ni ellir defnyddio'r broses gwyno yn lle apêl gyfreithiol ffurfiol. Mewn achosion lle mae'r Cyngor wedi cychwyn achos cyfreithiol, gellir gwneud cwyn, ond ni fydd yn atal unrhyw gamau gweithredu cyfreithiol sydd ar ddod.

Nid yw gwneud cwyn yn disodli'r hawliau statudol i apelio na'r hawl i wneud sylwadau. Nid yw ychwaith yn caniatáu amser ychwanegol i gydymffurfio ag unrhyw rybudd neu orchymyn.